**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Ken Skates AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru

21 Ionawr 2026

Annwyl Ken,

**Cau Porthladd Caergybi**

Yn dilyn fy llythyr ynghylch y digwyddiad angori yng Nghaergybi ar 5 Rhagfyr, bu digwyddiad angori arall yn y Porthladd. Arweiniodd hyn at gau'r Porthladd yn gyfan gwbl ar 7 Ionawr.

Er fy mod yn derbyn bod y cyfnod cau hwn yn sylweddol fyrrach na'r cyfnod cau a welsom y llynedd, o ystyried rôl hanfodol y porthladd i economi, masnach a thrafnidiaeth Cymru, mae'r ffaith bod y porthladd wedi'i gau yn gyfan gwbl am yr ail dro yn peri pryder mawr. Roeddwn i'n falch o nodi o adroddiadau yn y wasg eich bod wedi ceisio sicrwydd gan Stena Line Ports ynghylch cyflwr y porthladd a'i wasanaethau.

O ystyried bod y cyfnod cau hwn yn dod bron i flwyddyn yn union ar ôl yr un blaenorol, yn ogystal â'r cwestiynau a godais yn fy llythyr blaenorol, byddwn yn awyddus i ddeall effaith y cyfnod cau hwn a sut roeddech chi'n teimlo bod yr ymateb i'r cyfnod cau hwn yn cymharu â'r un y llynedd. Byddai gen i ddiddordeb hefyd yn eich barn gyffredinol ar wydnwch presennol y porthladd. Gofynnaf ichi ateb y cwestiynau canlynol os gwelwch yn dda:

1. A oedd unrhyw wersi o'r cyfnod pan gafodd y Porthladd ei gau yn llawn yn flaenorol rhwng Rhagfyr 2024 ac Ionawr 2025 a oedd yn fwyaf perthnasol y tro hwn yn eich barn chi?

2. Sut yr adlewyrchwyd gwaith Tasglu Môr Iwerddon yn yr ymateb i'r cau diweddaraf?

3. O ystyried bod y porthladd yn ddarn o seilwaith cenedlaethol hanfodol, a gawsoch chi sicrwydd ynghylch cyflwr y porthladd a'r gwasanaethau ar ôl siarad â Stena Line Ports? A oes unrhyw waith rydych chi'n teimlo y gallai fod angen ei wneud i wella hynny?

Diolch am eich sylw i'r mater pwysig hwn. Byddai o gymorth i'n gwaith parhaus ar y mater pe gallem gael eich ymateb erbyn 13 Chwefror.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Llyr Gruffydd AS yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir,

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

Copi i: Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith